Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pen y Pîl
# Heol Glan-y-Mor
# Trowbridge
# Rumney
# Caerdydd
# CF3 1RQ

## Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/08/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Pen y Pîl yn ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg yn ardal Trowbridge yn nwyrain Caerdydd, sy'n ardal a ddisgrifir fel un sydd ar y cyfan dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Sefydlwyd yr ysgol fel dosbarth cychwynnol ym Medi 2007 ar safle ysgol cyfrwng Saesneg gyfagos, oherwydd y galw cynyddol am addysg Gymraeg yn y rhan hon o'r ddinas ac am nad oedd digon o le yn Ysgol Bro Eirwg. Symudodd i'w safle ym mis Ionawr 2011. Agorwyd yr ysgol yn swyddogol yn Rhagfyr 2011.

Mae gan yr ysgol bellach 51 o ddisgyblion mewn tri dosbarth o oed derbyn hyd at flwyddyn 4. Rheolir yr ysgol gan bennaeth Ysgol Gymraeg Bro Eirwg, gyda chefnogaeth athrawes arweiniol. Mae rhai o athrawon Ysgol Bro Eirwg â chyfrifoldebau i ddatblygu meysydd penodol yn Ysgol Pen y Pîl. Mae'r llywodraethwyr wedi dechrau ar y broses o benodi pennaeth parhaol i'r ysgol.

Daw pump (10%) o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae deg disgybl yn dod o gefndiroedd ethnig cymysg. Mae 37% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn ciniawau am ddim, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru, ac mae 16% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pen y Pîl yn 2011-2012 yw £9,608. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Caerdydd yw £19,708 a'r lleiafswm yw £2,828. Mae Ysgol Pen y Pîl yn y trydydd safle o'r 116 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau disgyblion yn gyson dda;
- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cystal â, neu well na'r disgwyl;
- safonau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion yn gyson dda drwy'r ysgol;
- disgyblion yn llwyddo i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg, er bod y rhan fwyaf yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith;
- y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion i gyd yn gadarn; a bod
- ansawdd yr addysgu yn gyson dda.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth gadarn ac mae'n rhoi arweiniad clir, cryf a strategol;
- yr ysgol yn rhoi ffocws clir ar godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu;
- cydweithio agos gydag ysgol arall wedi cyfrannu'n bositif at ddatblygiad yr ysgol;
- mae athrawon yn gwneud defnydd da o ddata er mwyn adnabod blaenoriaethau; a bod
- y broses hunanarfarnu yn rhoi cyfeiriad clir i'r cynllun datblygu ysgol, sydd yn adnabod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 wella presenoldeb disgyblion;

A2 datblygu rôl y llywodraethwyr fel arweinwyr strategol; a

A3 sicrhau tîm arwain sefydlog ar gyfer yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn creu cynllun gweithredu'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion uchod.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion yr ysgol yn gwneud cynnydd da. Mae safonau gwaith disgyblion yn eu llyfrau, ac yn ystod y sesiynau dysgu yn briodol i'w hoed a'u gallu, ac mae gwaith y goreuon o safon uchel.

Mae'r disgyblion bron i gyd yn weithgar yn ystod y sesiynau, ac yn dangos diddordeb yng ngweithgarwch y dosbarth. Gallant drafod eu gwaith yn ddeallus ac, erbyn cyrraedd gwaelod cyfnod allweddol 2, maent yn dangos annibyniaeth gynyddol wrth weithio.

Er bod y disgyblion bron i gyd yn hanu o gartrefi lle siaredir Saesneg fel iaith gyntaf, maent, o oed cynnar, yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant sgwrsio'n glir a brwdfrydig am eu gwaith gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol gyfoethog. Fel arfer, mae'r rhan fwyaf yn dewis sgwrsio'n Gymraeg gyda'i ffrindiau mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Mae'r disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol. Erbyn cyrraedd cyfnod allweddol 2, gall y mwyafrif ohonynt ddarllen yn rhugl, yn gywir ac yn ddeallus yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ddefnyddio goslef llais i gyfleu ystyr. Gallant drafod cynnwys llyfrau'n effeithiol, mynegi barn amdanynt, a defnyddio'u medrau darllen yn effeithiol i gaffael gwybodaeth ar draws ystod o feysydd. Maent yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn Cymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm, gan ddefnyddio gofal wrth gyflwyno'i gwaith.

Dim ond data perfformiad ar gyfer cyfnod allweddol 1 sydd ar gael, a dim ond ar gyfer 2010 a 2011. Oherwydd bod maint y carfannau'n fach iawn, gydag un disgybl yn cyfateb i 16.5% o'r garfan, ar gyfer y ddwy flynedd, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar sail y data hwn.

Dengys cofnodion tracio mewnol yr ysgol bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cystal â, neu gwell na'r disgwyl.

O fewn y data cyfyng sydd ar gael, nid yw'n bosib canfod unrhyw batrwm yng nghanlyniadau bechgyn a merched, disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, na disgyblion o gefndiroedd ethnig.

Mae canlyniadau interim diwedd y cyfnod sylfaen ar gyfer 2012 yn dangos bod pob disgybl yn cyrraedd y safonau disgwyliedig mewn Lles a datblygiad mathemategol, a bod llawer ohonynt yn cyrraedd yr un safon mewn medrau cyfathrebu.

Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn dangos cynnydd da tuag at eu targedau personol, ac mae disgyblion o allu uwch yn cyrraedd safonau uchel.

**Lles: Da**

Mae safonau lles y disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn.

Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd byw a chadw'n iach yn datblygu'n briodol. Maent yn gwybod pa fwyd a diod sydd orau iddynt, ac maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod gwersi, ac mewn clybiau ar ôl ysgol.

Mae ymddygiad disgyblion yn dda iawn yn y sesiynau dysgu, amser cinio ac wrth gyd-chwarae ar yr iard, gan ddangos parch a gofal am ei gilydd.

Maent yn ymroi'n rhagorol yn y gwersi ac yn dangos brwdfrydedd tuag at eu dysgu. Maent yn dal ati i gwblhau eu tasgau gydag annibyniaeth gynyddol. Mae eu medrau meddwl a datrys problemau'n datblygu'n effeithiol, ac mae hyn yn dechrau cael effaith ar fywyd ehangach yr ysgol trwy waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco.

O'u cymharu gydag ysgolion tebyg ar sail canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae ffigyrau presenoldeb yr ysgol ym mhlith y 25% isaf yn ystod y tair blynedd hyd at 2011. Dengys yr ystadegau diweddaraf fod ffigyrau presenoldeb yr ysgol yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru. Fodd bynnag, mae'r canran presenoldeb yn dangos cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da, beth bynnag eu cefndir a'u cyrhaeddiad cychwynnol. Yn eu cynlluniau gwaith, mae athrawon yn adnabod cyfleoedd da i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i ennyn diddordeb disgyblion, trwy weithgareddau all-gyrsiol a chynlluniau i dargedu anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwella medrau, yn arbennig medrau llafar, yn flaenoriaeth uchel drwy'r ysgol, a'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig yn amlwg ymhob agwedd o waith yr ysgol. Mae cyfleoedd da i ddefnyddio a datblygu medrau rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y cynlluniau gwaith.

Trwy gyfrwng themâu dosbarth, gweithgareddau allgyrsiol ac elusennol mae cyfleoedd priodol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae gweithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ailgylchu ac arbed ynni yn datblygu.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu ym mhob gwers yn dda. Mae gan athrawon wybodaeth briodol am yr holl feysydd dysgu, ac maent wedi elwa o hyfforddiant pwrpasol. Mae athroniaeth a dulliau dysgu'r Cyfnod Sylfaen wedi gwreiddio'n dda, ac yn cael effaith bositif ar ddatblygu disgyblion fel dysgwyr annibynnol.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn modelu safonau Iaith Gymraeg yn dda iawn.

Mae'r athrawon yn amrywio cyflymder gwersi yn effeithiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn weithredol brysur ac yn aros ar dasg am gyfnodau estynedig. Maent yn fedrus wrth wahaniaethu yn eu paratoadau, er mwyn datblygu'r unigolion hyd eithaf eu gallu.

Mae'r gwersi yn adeiladu'n ddeallus ar ddysgu blaenorol disgyblion ac mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn effeithiol wrth gefnogi gweithgareddau.

Defnyddir adnoddau'r ysgol yn effeithiol i hybu annibyniaeth disgyblion mewn gwahanol ardaloedd dysgu.

Mae prosesau asesu'r ysgol yn dda. Mae gan yr ysgol wybodaeth gadarn am gyrhaeddiad ei disgyblion. Defnyddir y wybodaeth honno i gynllunio yn fanwl ar gyfer datblygu'r unigolyn, ac mae athrawon yn defnyddio strategaethau amrywiol er mwyn targedu medrau i'w gwella.

Mae ymateb athrawon i waith disgyblion yn drylwyr ac adeiladol, a chaiff disgyblion gyfle i ymateb. Mae hyn, ynghyd â thechnegau eraill asesu ar gyfer dysgu, yn galluogi disgyblion i ddeall eu dysgu eu hunain, a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Caiff pob rhiant wybodaeth reolaidd am gynnydd eu plentyn, a gosodir targedau heriol ar y cyd â'r disgyblion yn gyson.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn trefnu yn effeithiol ac yn cyfrannu yn dda at ddatblygiad lles ei disgyblion. Mae 'rheolau aur' yr ysgol, ynghyd â gweithgareddau ac arddangosfeydd, yn cefnogi ymwybyddiaeth y disgyblion o hanfodion bywyd iach. Mae'r ysgol yn gwrando ar lais y disgybl ac yn ymroddi i ddatblygu parch ymysg holl aelodau cymuned yr ysgol.

Trwy gyfrwng gweithgareddau elusennol, gwasanaethau ac ymweliadau, mae'r ysgol yn sicrhau datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda. Mae gweithgareddau diwylliannol megis cyngherddau ac eisteddfod, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae'r weithred o gyd-addoli'n cyfrannu'n bositif at eu datblygiad ysbrydol, ac yn ateb y gofynion statudol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol ac arbenigwyr yr awdurdod lleol i sicrhau llwyddiant ym meysydd megis iechyd, hyder, ymddygiad, a chyflawniad.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol â'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol er mwyn cynllunio i atgyfnerthu medrau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgu unigolion yn gynnar, gan gynnwys disgyblion uwch eu gallu. Caiff cynlluniau addysg unigol addas eu cytuno a'u gweithredu ar y cyd gan athrawon dosbarth ac athrawon cefnogi. Mae gan rieni le priodol yn y broses. Mae athrawon yn sicrhau cefnogaeth briodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu yn eu gwersi.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol ac mae'r staff yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion. Mae'r ethos o barch at eraill yn amlwg yn yr ysgol ac mae'r ysgol yn hyrwyddo amrywiaeth yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ymfalchïo yn eu gwaith a'u llwyddiannau.

Mae'r adeilad a'r adnoddau allanol o ansawdd da iawn ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda. Mae arddangosfeydd lliwgar a phwrpasol ym mhob ystafell i gefnogi'r dysgu. Mae amrywiaeth dda o symbyliadau dysgu a chyfleoedd i ddathlu gwaith disgyblion.

Mae nifer helaeth o ddatblygiadau wedi'u cwblhau i'r adeilad i baratoi ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth mewn gofal yn rhoi arweiniad a rheolaeth glir, gryf a strategol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hi'n llwyddo i gyfleu disgwyliadau uchel ymhlith y staff ac i sicrhau fod yr ysgol yn parhau i ddatblygu. Mewn partneriaeth gyda swyddogion yr awdurdod lleol a'r llywodraethwyr, mae'r pennaeth mewn gofal yn cymryd rhan adeiladol yn y broses o ffurfioli arweinyddiaeth barhaol.

Mae'r pennaeth a'r timau strategol dros dro ysgol gyfagos yn cydweithio'n agos gydag aelodau'r uwch dîm rheoli ac maent yn gwneud defnydd da o ddadansoddiadau data ar berfformiad disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn frwdfrydig ond ar hyn o bryd mae llawer ohonynt yn datblygu eu rôl. Maent yn derbyn dadansoddiadau data gan y pennaeth am berfformiad disgyblion ac yn ymwybodol o safonau a chyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda iawn i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol megis datblygiad y Cyfnod Sylfaen, asesu ar gyfer dysgu a'r pwyslais amlwg ar godi safonau llythrennedd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol ffocws clir ar godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu.

Mae prosesau hunanarfarnu yn datblygu fel rhan naturiol o fywyd yr ysgol. Mae barn pawb gan gynnwys staff, rhieni a'r plant yn bwysig, ac yn cael eu cynnwys. Mae'r adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da a defnyddir y wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses yn effeithiol er mwyn adnabod blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr ac mae cyswllt da rhyngddo a'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun datblygu yn gosod blaenoriaethau addas a chlir ar gyfer gwella, ac yn nodi'r gwariant angenrheidiol. Mae'n ddogfen weithredol sy'n rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol.

Mae cyfrifoldebau a disgwyliadau clir gan yr athrawon. Maent yn cysylltu yn rheolaidd gydag aelodau o'r staff ysgol gyfagos ac mae hyn yn cynnwys amser i arfarnu safonau'r dysgwyr, ansawdd yr addysgu a'r defnydd a wnaed o adnoddau. Mae cyfleoedd da i athrawon yr ysgol gyfarfod i drafod a rhannu arfer dda mewn meysydd penodol megis llythrennedd ac anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad i hyn, mae'r athrawon yn datblygu cynlluniau gwaith effeithiol sy'n sicrhau cynnydd cyson mewn safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu nifer o bartneriaethau effeithiol. Mae'r bartneriaeth rhwng Ysgol Pen y Pîl ac ysgol gyfagos yn gryfder. Mae cydweithio da wedi bod rhwng staff yn y ddwy ysgol ac mae'r cyswllt yn cael dylanwad da ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yr ysgol ac ar eu safonau. Mae'r ddwy ysgol wedi rhannu adnoddau, cynnal cyfarfodydd ar y cyd a rhannu arbenigedd.

Mae'r berthynas gyda rhieni'n gadarn iawn.

Er nad oes disgyblion yn gadael yr ysgol am ddwy flynedd arall, mae cysylltiadau'n dechrau cael eu sefydlu gydag ysgol uwchradd newydd fydd yn agor yn yr ardal ym mis Medi 2012.

Mae'r ysgol wedi derbyn cefnogaeth dda wrth gwmnïoedd lleol ac mae'r partneriaethau rhwng ystod o wahanol asiantaethau, megis gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol, yn dda. Mae hyn yn cyfoethogi darpariaeth yr ysgol ac mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o fyd busnes ac o fywyd cymunedol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae ystod dda o adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu drwy'r ysgol. Mae digon o staff profiadol a chynorthwyol yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae safon yr adeilad a'r amgylchedd allanol yn dda.

Gwneir defnydd da iawn o arbenigeddau staff i gynnig cyfleoedd allgyrsiol a gwella ansawdd yr addysg a chodi safonau'r disgyblion. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad staff cyfan yn effeithiol ac yn arwain at fodloni'r anghenion hyfforddiant, gan gynnwys datblygiad proffesiynol cynnar.

Mae'r holl staff yn gwneud y defnydd gorau o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad er mwyn gwella lles a chanlyniadau disgyblion.

Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n helaeth mewn datblygu ardaloedd allanol a mewnol newydd yn yr ysgol. Mae'r ardaloedd hyn yn rhoi cyfleoedd cyfoethog sy'n hyrwyddo profiadau dysgu'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Mewn perthynas â safonau'r disgyblion a'r ddarpariaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dim ond data perfformiad ar gyfer cyfnod allweddol 1 sydd ar gael, a dim ond ar gyfer 2010 a 2011. Yn ystod y ddwy flynedd, chwech o ddisgyblion (pedwar o fechgyn a dwy ferch) oedd yn y garfan diwedd cyfnod allweddol 1.

Oherwydd bod maint y carfannau'n fach iawn, gydag un disgybl yn cyfateb i 16.5% o'r garfan, ar gyfer y ddwy flynedd, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar sail y data hwn.

Yn 2012, yr oedd naw o ddisgyblion (chwe merch a thri bachgen) yn y garfan. Cyrhaeddodd pob disgybl y safon ddisgwyliedig (Deilliant 5+) mewn datblygiad mathemategol a datblygiad lles, a chyrhaeddodd 77% yr un safon mewn cyfathrebu.

Cyrhaeddodd 66.6% o'r disgyblion safonau uwch na'r disgwyl (Deilliant 6) mewn datblygiad lles, 13% mewn datblygiad mathemategol, a dim un disgybl mewn cyfathrebu.

Nid yw'n bosib canfod unrhyw batrwm yng nghanlyniadau bechgyn a merched, disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, na disgyblion o gefndiroedd ethnig.

Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn dangos cynnydd da tuag at eu targedau personol, ac mae disgyblion o allu uwch yn cyrraedd safonau uchel.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion disgyblion**

Ymatebodd 12 o ddisgyblion i'r holiadur, sef holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr ysgol. Mae'r ymateb yn gadarnhaol iawn, gyda phawb yn cytuno gyda phob datganiad, ar wahân i'r datganid sy'n cyfeirio at ymddygiad disgyblion yn ystod egwyl neu'r awr ginio. Yr oedd 25% (tri disgybl) yn anghytuno bod pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda.

Maent i gyd yn credu bod yr ysgol yn eu cefnogi a'u cynorthwyo'n dda, ac yn eu dysgu sut i aros yn iach. Mae disgyblion i gyd yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a'u bod yn gwneud yn dda.

Yn gyffredinol mae'r ymateb yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar draws Cymru.

**Ymatebion rhieni**

Derbyniwyd ymatebion oddi wrth 12 o rieni. Mae'r atebion yn llawer mwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar draws Cymru. Mae pob un o'r rhieni wedi ymateb yn gadarnhaol i bob un ond tri o'r 19 cwestiwn. Mae pob un ohonynt yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol ac yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol. Dywedant fod yr ysgol yn rhoi arweiniad da a chefnogaeth gadarn i'w plant, a bod gan y staff ddisgwyliadau uchel.

Barn y rhan fwyaf o rieni yw bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, a bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff. Maent hefyd yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Terry Williams | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Gwyn Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gaynor Williams | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.